Gofal Cymdeithasol Cymru
Social Care Wales

# Ein cynllun gweithredu carbon sero net 2030

Cyhoeddwyd gyntaf: 28 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 4 Rhagfyr 2023

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/amdanom-ni/ein-canlyniadau/ein-hymrwymiad-i-fod-yn-sero-net-o-ran-carbon-erbyn-2030/ein-cynllun-gweithredu-carbon-sero-net-2030 am y fersiwn diweddaraf.

Rydyn ni wedi datblygu *Ein cynllun gweithredu carbon sero net 2030* i'n helpu i leihau ôl troed carbon ein gweithgareddau a nodi sut gallwn ni gefnogi Llywodraeth Cymru i wireddu ei 'Trywydd datgarboneiddio gofal cymdeithasol tuag at sero net erbyn 2030'.

Mae'r cynllun yn amlinellu sut byddwn ni'n:

- datgarboneiddio neu'n lleihau ôl troed carbon ein gweithgareddau a sut byddwn ni'n cyfrifo ein hôl troed carbon i'n helpu i fonitro ein cynnydd tuag at sero net

- cydweithio â sefydliadau eraill, yn dylanwadu arnynt ac yn eu cefnogi i'w helpu i feddwl am sut gallant ddatgarboneiddio neu leihau ôl troed carbon eu gweithgareddau

- addysgu ac yn dylanwadu ar ymddygiad ein staff a'r sector gofal cymdeithasol ehangach trwy feddwl am ddatgarboneiddio ar bob cam wrth gynllunio a darparu ein gwasanaethau, a thrwy hyrwyddo arferion datgarboneiddio da ac arloesol.

Mae gan ein cynllun gweithredu saith thema:

- strategaeth
- polisi
- caffael
- rheoli ein cyfleusterau
- gwybodaeth
- cydweithio a mentrau i gefnogi'r sector gofal cymdeithasol
- ymddygiadau personol.